



Trafnidiaeth dan Contract o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Bro Morgannwg (2020-21) Gofynion Diogelwch Covid-19 ar gyfer Gyrwyr a Chynorthwyrwr Teithwyr

Mae'r pwyntiau canllaw canlynol yn grynodeb ar gyfer cyfeirio'n rhwydd at ofynion ar gyfer gyrwyr a cynorthwyrwr teithwyr trafndiaeth ysgol dan contract. Fodd bynnag, dylid darllen y crynodeb hwn yn unol ag asesiad risg llawn ar gyfer 'Darparu Gwasanaethau Trafnidiaeth Ysgol/Coleg o ddechrau Tymor yr Hydref 2020, yn ystod y pandemig COVID-19'.

- Daliwch ati i fonitro canllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â hwy a'r gofynion cyfreithiol.
- Dylech gydymffurfio'n llawn â chyfarwyddiadau a ddarperir gan ysgolion.
- Gwnewch yn siŵr bod pob aelod o staff yn cadw pellter o 2m o leiaf rhyngddyn nhw a rhieni, staff eraill a dysgwyr eraill ar bob adeg oni bai nad oes modd gwneud felly oherwydd anghenion disgyblion/capasi't'r cerbyd. Yn yr achos hwn, rhaid gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol priodol. (Gweithredwyr trafndiaeth sy'n gyfrifol am roi CDP priodol i'w staff).
- Ni fydd Gyrwyr a Chynorthwyrwr Teithwyr yn ymgynnull gyda staff eraill (naill ai yn yr ysgol neu yrwyr/cynorthwyrwr teithwyr eraill), yn enwedig mewn ysgolion/colegau ac ar gerbydau.
- Sicrhewch fod y cerbyd wedi'i barcio'n ystyriol er mwyn lleihau'r cyswllt rhwng y teithwyr.
- Gwnewch yn siŵr bod y cerbyd yn cael ei awyru trwy'r amser trwy agor ffenestri/awyrwyr/goleuadau to (lle y bo'n berthnasol). Ar gerbydau bach, rhaid peidio defnyddio'r system aerdymheru/rheoli'r hinsawdd.
- Gwnewch yn siŵr bod y seddau yn uniongyrchol y tu ôl i'r gyrrwr yn wag lle y bo'n bosib neu yn cael eu llenwi olaf os bydd y cerbyd yn llawn.
- Sicrhewch nad yw seddi 'wyneb yn wyneb' yn cael eu defnyddio.
- Caiff yr amgylchedd y mae angen i bob Cynorthwyrwr Teithwyr weithio ynddo ei asesu'n unigol gan y gweithredwr a chaiff mesurau rheoli priodol eu rhoi ar waith ar gyfer y lleoliad hwnnw. Efallai y bydd angen i Gynorthwyrwr Teithwyr helpu gyda chau ac agor gwregysau diogelwch a chynorthwyo dysgwyr i mewn ac allan o'r cerbydau (oni bai ei bod wedi'i nodi mewn cyfarwyddiadau safle ysgol i beidio â gwneud hynny). Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos disgyblion ADY, felly mae'n hanfodol eu bod yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (CDP) priodol.
- Bydd Cynorthwyrwr Teithwyr yn eistedd mwy na 2m oddi wrth y gyrrwr pan fo hynny'n ymarferol.
- Rhaid i Yrwrwr a Chynorthwyrwr Teithwyr roi gwybod yn syth i Dîm Trafnidiaeth Teithwyr y Cyngor am unrhyw broblemau ymddygiad gan y dysgwyr, yn enwedig mynd yn groes i gyfarwyddiadau diogelwch COVID-19. Yna, bydd y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr yn siarad â'r ysgol yn ôl yr angen.
- Sicrhewch fod yr holl gamerâu TCC yn gweithio'n iawn ar gerbydau sydd â 16+ o seddi .
- Bydd ysgolion a cholegau yn gyfrifol am sicrhau bod dysgwyr yn mynd ar y cerbydau fesul cerbyd ar safle'r ysgol/coleg.
- Sicrhewch na fwyteir unrhyw fwyd na diod ar y cerbyd.
- Sicrhewch fod y cerbyd yn cael ei lanhau'n drylwyr unwaith y dydd.
- Sicrhewch fod y manau cyffwrdd mewnol ac allanol ac ati yn cael eu glanhau rhwng pob taith i safon benodol (chwistrell/hancesi gwrthfacterol/gwrthfeirws)
- Caiff Gyrwyr a Chynorthwyrwr Teithwyr hylifau diheintio dwylo/hancesi glanwaith gan eu cyflogwr.
- Rhaid i Gynorthwyrwr Teithwyr ddefnyddio'r diheintydd priodol yn aml gan gynnwys yn ystod y daith i'r ysgol ac oddi yno.

- Dylid galluogi Gyrwyr a Chynorthwywr Teithwyr i ddefnyddio cyfleusterau lles addas yn yr ysgol/colegau (yn dibynnu ar gyfarwyddiadau safle'r ysgol) er mwyn iddynt olchi eu dwylo'n drylwyr trwy ddefnyddio dŵr poeth a sebon.
- Dylai Gyrwyr, Cynorthwywr Teithwyr a Dysgwyr ddilyn arferion hylendid da wrth beswch a thisian; Ei Ddal, Ei Daflu, Ei Ddifa!
- Sicrhewch fod bag gwastraff plastig ar gael ar gyfer gwaredu CPD a sbwriel, er ein bod wedi gofyn i ddisgyblion fynd â'u holl sbwriel eu hunain gyda nhw.
- Ar gyfer y contractau hynny sy'n casglu o gyfeiriadau cartref, mae gan staff y dewis i ofyn i Rieni/Gofalwyr/Dysgwyr bob dydd a oes gan y Dysgwr ei hun neu unrhyw un yn y cartref symptomau COVID-19. Os felly, y cyfarwyddyd yw na ddylai'r Dysgwr deithio. Wrth gartref dysgwr, mae gan y gyrrwr/cynorthwydd personol yr hawl i wrthod i'r Dysgwr deithio. Bydd y Gyrrwr/Cynorthwydd Teithwyr yn rhoi gwybod am unrhyw deithio a wrthodwyd oherwydd symptomau COVID-19 i Staff yr Ysgol a'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr.
- Os bydd Dysgwr yn dechrau dangos symptomau yn ystod y daith, ar gerbydau llai, eir â'r dysgwr adref ac ni chaiff rhagor o ddysgwyr eu casglu. Ceir mynd â dysgwyr symptomatig i'r ysgol dim ond os nad oes unrhyw un gartref i'w croesawu. Rhaid rhoi gwybod i'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr am unrhyw gamau o'r fath. Rhaid i staff i olchi eu dwylo, newid a golchi eu dillad wrth gyrraedd gartref. Yna mae angen i staff ynysu eu hunain nes bod canlyniad prawf COVID y dysgwr symptomatig yn hysbys.
- Bydd Gyrwyr a Chynorthwywr Teithwyr yn ystyried eu ffitrwydd eu hunain cyn pob taith. Os ydynt yn dangos symptomau, ni fyddant yn gweithio a byddant yn cysylltu â'u cyflogwr/contractwr. Rhaid i'r Contractwr sicrhau gyrrwr/hebryngwr i gyflenwi a defnyddio cerbyd arall sydd wedi'i lanhau.
- Nid yw defnyddio gorchuddion wyneb (masgiau) yn ofynnol ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Dysgwyr sy'n cael eu cludo rhwng y cartref a'r ysgol ar drafnidiaeth ysgol benodedig, er ei bod yn argymhell defnyddio gorchuddion wyneb tair haen ar gyfer pob teithiwr (11+ oed) ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- **Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn orfodol (h.y. yn ofyniad) i Ddysgwyr o oed ysgolion uwchradd (11+ oed) a Gyrwyr a Chynorthwywr Teithio wisgo mygydau wyneb wrth deithio ar wasanaethau trafndiaeth 'cartref i'r ysgol' dan gontract y Cyngor. Bydd rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am roi mygydau wyneb i ddisgyblion).**
- Os oes unrhyw resymau iechyd sy'n golygu nad yw'n bosibl i'r dysgwr/gyrrwr/cynorthwydd teithwyr wisgo masg wyneb mae angen datgan hyn i'r Tîm Trafnidiaeth Teithwyr cyn teithio. Gwrthodir teithio i unrhyw Ddysgwr sy'n ceisio mynd i mewn i gerbyd trafndiaeth ysgol dan gontract heb orchudd wyneb (masg). Rhaid i rieni/gofalwyr roi gorchuddion wyneb (masgiau) i ddisgyblion a bydd cyflogwyr yn eu rhoi i yrwyr/hebryngwyr.
- Mae'r Cyngor yn argymhell defnyddio gorchuddion wyneb (masgiau) ar gyfer Dysgwyr ysgolion cynradd, Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a Gyrwyr a Chynorthwywr Teithwyr sy'n methu ymbellhau'n gymdeithasol (2m).
- Ni ellir gwarantu effeithlonrwydd gorchuddion wyneb, e.e. gorchuddion cartref/amhriodol gyda llai na 3 haen.
- Bydd y defnydd o fenig gan staff yn ôl eu doethineb eu hunain ond rhaid iddynt fod yn ystyriol o'r dull cywir i dynnu a gwaredu menig.
- Er mwyn osgoi traws-heintio posibl, bydd bag gwastraff plastig ar gael ar gyfer gorchuddion wyneb a menig wedi'u defnyddio a chânt eu gwaredu fel gwastraff arferol ar ôl pob taith.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru a'n canllawiau ni yn destun newid ar fyr rybudd. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyfleu i weithredwyr drwy'r sianelau arferol.

14 Awst 2020